



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Medi 2023 - Medi 2024

Cynnwys

Cefndir.....	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	5
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	5
Safonau Llunio Polisi	8
Safonau Gweithredu	10
Safonau Cadw Cofnodion	15
Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau	15
Safonau Atodol.....	17
Casgliad ac argymhellion.....	18
Atebolrwydd.....	19

Cefndir

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr cymunedol anstatudol mwyaf yn y DU, sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy – gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau. Rhwng mis Medi 2023 ac Awst 2024, dyfarnwyd dros 950 o grantiau yng Nghymru gwerth £38.6 miliwn. Rydym wedi bod yn gweithredu o dan ein henw newydd, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ers 31 Ionawr 2019. Cyn hyn, roeddem yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr.

Rydym yn falch o weithredu fel sefydliad dwyieithog ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon uchel i'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gyda'n cydweithwyr. Yn sgil hynny, rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau drwy ein grantiau.

Yn 2011, daeth Mesur y Gymraeg i rym a sefydlodd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Sefydlodd y Mesur hefyd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy waith rheoleiddio a hyrwyddo.

Ers 25 Ionawr 2017, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gronfa. Gweler rhestr lawn o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ein [Hysbysiad Cydymffurfio](#).

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cydymffurfiaeth â [Safonau'r Gymraeg](#) ac yn tynnu sylw at ein llwyddiannau dros y flwyddyn 2023 – 2024. Rydym hefyd yn edrych ar unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sydd eu hangen yn ystod y flwyddyn i ddod.

Crynodeb Gweithredol

- Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ein gwasanaethau Cymraeg eleni.
- Mae'r deunyddiau ar gyfer yr holl raglenni ariannu newydd a diweddaedig sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg - er enghraifft, ym mis Mawrth lansiodd ffrwd newydd o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd ac ym mis Gorffennaf, diweddarwyd tudalen we Cronfa'r Deyrnas Unedig.
- Gwnaethom archwilio ffyrdd o gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol yng Nghymru trwy ddarparu cyfres o Adroddiadau Effaith mewn fformat sain Cymraeg.
- Rydym wedi cynnal ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac wedi lansio tudalen LinkedIn newydd yng Nghymru.
- Rydym yn sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn ein cylchlythyr dwyieithog misol sy'n cael ei anfon at bron i 1,500 o'n deiliaid grant yng Nghymru.
- Rydym yn sicrhau bod ein holl ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddwyieithog, gan alluogi ein rhanddeiliaid i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym yn sicrhau bod swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu'r DU gyfan yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ac rydym yn ystyried anghenion ieithyddol y rolau.
- Rydym yn parhau i brofi deunyddiau gyda chwsmeriaid Cymraeg. Eleni fe wnaethom brofi deunyddiau ar gyfer ein rhaglen Pawb a'i Le ar ei newydd wedd a Chamau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd a chawsom adborth cadarnhaol.
- Gwnaethom ddatblygu adnodd Asesu Effaith Tegwch i gynorthwyo cydweithwyr i asesu goblygiadau EDI (Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant), gan gynnwys ystyried y Gymraeg.
- Anfonwyd holiadur at ein cydweithwyr i asesu eu sgiliau Cymraeg ac rydym wedi gwrandao ar adborth ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Rydym yn parhau i gefnogi cydweithwyr i ddysgu a gwella eu Cymraeg drwy gynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg a chynnal sgysiau anffurfiol rhwng ein dysgwyr a'n cyfieithydd mewnol.
- Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaethom hefyd gynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg mewnol i ddau dîm y tu allan i Gymru.
- Rydym yn parhau i gefnogi deiliaid grant i hyrwyddo'r Gymraeg drwy eu grantiau – er enghraifft, fe wnaethom adeiladu ar ein cyngor i brosiectau ar reoli eu prosiectau'n ddwyieithog trwy gyhoeddi canllawiau manylach.
- Rydym wedi hyrwyddo diwylliant Cymru yn fewnol ac yn allanol drwy ddathlu dyddiau a gwyliau Cymraeg.
- Rydym yn ariannu amrywiaeth o grwpiau ledled Cymru sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Rydym wedi creu [dogfen](#) sy'n crynhoi sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau. Rydym hefyd wedi creu dogfen yn amlinellu sut rydym yn [goruchwyllo, hybu a hwyluso](#) cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, yn unol â safonau 151, 157 a 163.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn brofiad cadarnhaol i ni gan ei fod yn cryfhau'r gwasanaeth dwyieithog a gynigir i'n cwsmeriaid a'n deiliaid grant, yn ogystal â'n galluogi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'n cydweithwyr.

Mae'r safonau'n galluogi ein tîm iaith Gymraeg i gydweithio'n agosach â'n timau canolog sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan gynnwys Adnoddau Dynol a thimau ariannu ledled y DU. Maent hefyd wedi ein galluogi i weithio'n agosach gyda sefydliadau Cymraeg allanol allweddol i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg a'u cefnogi i wneud defnydd llawn o'r rhain. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithredu o dan categorïau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym yn falch o allu cynnig gwasanaethau dwyieithog i'n hymgeiswyr a'n deiliaid grant drwy gydol cyfnod eu grant. Mae ein llinell ymholiadau yn cael ei weithredu gan siaradwyr dwyieithog, mae'r holl ganllawiau a deunyddiau ymgeisio ar gael yn ddwyieithog ac mae cydweithwyr Cymraeg eu hiaith yn asesu ac yn rheoli grantiau ar gyfer grwpiau sydd wedi dewis gwneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau 1-7, 8-22, 33-47 a 67-71. Un o'r camau a argymhellwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y llynedd oedd ychwanegu'r frawddeg ganlynol i'n tudalen gyswllt 'Rydym yn croesawu galwadau ffôn a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi'. Mae hyn bellach yn ymddangos ar y [wefan](#), gan gydymffurfio'n llawn â safon 14.

Ar hyn o bryd, mae 51% (22 allan o 43) o gydweithwyr yng Nghymru yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, sy'n gynnydd ar ganran y llynedd. Mae dau o aelodau Pwyllgor Cymru hefyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae holl gyfarfodydd Pwyllgor Cymru wedi cael eu cynnal yn ddwyieithog ers 2021 gyda chyfieithydd ar y pryd, yn unol â safonau 24-32. Gyda chymaint o siaradwyr Cymraeg yn y Gronfa, mae'n hawdd i ni hwyluso gwasanaethau Cymraeg i'n cwsmeriaid.

Mae'r rhan fwyaf o'n cydweithwyr yn gweithio ar sail hybrid (h.y. cymysgedd o weithio gartref ac yn ein swyddfeydd). Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar ein safonau Cyflenwi Gwasanaethau gan fod mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb. Mae ein prif gyswllt â'r cyhoedd bellach trwy ein llinell ymholiadau, neu mewn digwyddiadau allgymorth sy'n ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn parhau i gael lle amlwg yn ein swyddfeydd, wrth i ni ddefnyddio adnoddau Cymraeg Gwaith Comisiynydd y Gymraeg ac arddangos ein siarter iaith Gymraeg yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd yn defnyddio'r logos Cymraeg Gwaith ar ein lluniau ar Microsoft Teams. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu darparu gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid a chydweithwyr.

Mae ein gwefan yn ddwyieithog ac mae'r holl gynnwys newydd sy'n berthnasol i Gymru a chynulleidfaoedd ledled y DU yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan gynnwys newyddion, mewnwelediadau a gwybodaeth am ein grantiau. Mae hyn yn cydymffurfio â safonau 48-52.

Rydym wedi nodi ein llwyddiannau o ran Safonau Cyflenwi Gwasanaethau eleni isod:

Ffrwd newydd y Gronfa Gweithredu Hinsawdd

Ym mis Mawrth, lansiodd ffrwd newydd o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd o'r enw Ein Dyfodol Ni. Yn unol â safonau 33-45, mae'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys gweminar wybodaeth ddwyieithog lle'r oedd sleidiau'r cyflwyniad yn ddwyieithog. Roedd presenoldeb ein cyfieithydd yn galluogi mynychwyr i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diweddarau tudalen we Cronfa'r Deyrnas Unedig

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd tîm Cronfa'r Deyrnas Unedig gyfres o weminarau ar gyfer eu tudalen we ddiweddaedig, flwyddyn ar ôl ei lansio. Cynhaliwyd un o'r gweminarau yn ddwyieithog, lle'r oedd sleidiau'r cyflwyniad yn ddwyieithog ac roedd y mynychwyr yn gallu cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phresenoldeb ein cyfieithydd. Mae [recordiad o'r gweminar](#) ar gael ar y wefan gydag is-deitlau Cymraeg a thrawsgrifiad Cymraeg.

Trosleisio ein Hadroddiadau Effaith yn Gymraeg

Ym mis Tachwedd, cynhyrchoedd Tîm Gwybodaeth a Dysgu y DU adroddiad effaith am [Raglen Dewch at eich Gilydd Bwyd am Oes](#). Er mwyn gwella hygyrchedd ac annog cynulleidfa ehangach i ymgysylltu â chynnwys Gwybodaeth a Dysgu, penderfynodd y tîm gynhyrchu fersiwn sain o'r adroddiad. Roedd yr adroddiad ar gael fel cyfieithiad Cymraeg ysgrifenedig ac fel recordiad sain Cymraeg. Yn dilyn llwyddiant hyn, gwnaethom ddefnyddio'r un dull ar gyfer cyfres o Adroddiadau Effaith o'r enw [Dysgu gan gymunedau](#), yn seiliedig ar Weithredu Hinsawdd, Amrywiaeth ar Fyrddau, Siediau dynion, Banciau bwyd a Llinellau cymorth. Cafodd y rhain eu recordio'n fewnol gan amrywiaeth o leisiau, gan sicrhau bod y cynnwys hwn ar gael i gynulleidfa ehangach yng Nghymru.

Tynnu sylw at ein cynnwys Cymraeg

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sicrhau ein bod yn tynnu sylw at ein cynnwys Cymraeg yn ein cylchlythyr misol sy'n cael ei anfon at bron i 1,500 o danysgrifwyr. Mae'r cynnwys hwn yn amrywio o ganllawiau ar sut i reoli eich grant yn ddwyieithog, dathlu prosiectau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, dathlu dyddiau a digwyddiadau Cymraeg a chlywed gan ein Swyddogion Ariannu Cymraeg.

Gan gydymffurfio â safonau 54-55, rydym yn sicrhau ein bod yn rhannu'r cynnwys hwn yn ddwyieithog ar ein cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ein [tudalen LinkedIn](#) a lansiodd eleni.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Ariannwr gwirioneddol ddwyieithog

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddwyd [blog](#) gennym yn canolbwyntio ar ein darpariaeth Gymraeg fel ariannwr a chyflogwr. Gwnaethom ddefnyddio ymchwil a wnaed gan ein tîm Polisi ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 i drafod sut y gallwn helpu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau. Gwnaethom dynnu sylw at brosiectau sy'n hyrwyddo'r iaith gan gynnwys Mudiad Meithrin, Menter Gorllewin Sir Gâr, Cwmni Theatr Eleth a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Y Gymraeg mewn digwyddiadau allanol

Yn unol â safonau 24 – 29, gydag unrhyw ddigwyddiad allanol rydym yn parhau i ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf drwy roi gwybod i'r rhai sy'n bresennol yn y gwahoddiad neu'r ffurflen gofrestru bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a gofynnwn a hoffent gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn yr ymatebion, mae gennym y trefniadau priodol ar waith. Yn ein digwyddiadau, lle mae o leiaf un person yn nodi yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, rydym yn defnyddio cyfieithydd ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Rydym yn agor y digwyddiad yn ddwyieithog ac yn pwysleisio y gall mynychwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd sesiwn ariannu ddwyieithog ar gyfer Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru gyda dau o'n Swyddogion Ariannu Cymraeg eu hiaith. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn ddwyieithog gyda Mudiad Meithrin ym mis Mehefin ar gyfer 15 aelod o staff sy'n cefnogi grwpiau babanod a phlant bach yng Nghymru. Cyflwynodd y Swyddogion Ariannu wybodaeth am ein prif raglenni ariannu Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a Phawb a'i Le yng Nghymru.

TACHWEDD 30, 2023 | TNLCOMMUNITYFUNDALES

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Ariannwr gwirioneddol ddwyieithog

Mae'r iaith Gymraeg wedi'i disgrifio fel trysor cenedlaethol sy'n perthyn i ni gyd. Rydym yn falch o gael ein cydnabod fel cyllidwr sy'n darparu gwasanaeth dwyieithog i bobl sy'n byw yng Nghymru. Trwy ein cyllid, rydym yn galluogi cymunedau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Mae'r Gymraeg yn cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Fel corff statudol, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y Gronfa) yng Nghymru yn cefnogi'r targed hwn yn llawn.

O'r cyswllt cyntaf â ni byddwch yn cael gwasanaeth dwyieithog a, phe baech yn dymuno, gall eich prosiect gael ei reoli gan Swyddog Ariannu sy'n siarad Cymraeg.

Blog Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Ariannwr gwirioneddol ddwyieithog.

Recriwtio

Yn unol â safon 132, rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob rôl wag trwy gyfeirio at ein Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae gennym hefyd restr wirio sy'n manylu ar y protocol mewn perthynas â'r Gymraeg wrth hysbysebu swyddi, cyfweld a chyfathrebu â dechreuwyr newydd.

Y llynedd, newidiwyd ein tudalen swyddi ar ein gwefan fel bod modd gweld y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un safle. Cyn hynny, roedd tudalen ar wahân ar gyfer hysbysebion Cymraeg. Mae hyn yn golygu ei bod yn haws dod o hyd i hysbysebion Cymraeg ac rydym yn cydymffurfio â safon 133A. Mae hyn wedi gweithio'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r system hon.

Mae'r holl rolau yng Nghymru a ledled y DU yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwefannau swyddi Cymraeg fel Golwg360, Lleol a Safle Swyddi ar gyfer rolau sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'dymunol' neu 'hanfodol'. Ers mis Medi 2023, mae 42 o swyddi wedi cael eu hysbysebu'n ddwyieithog, gyda 12 o'r swyddi hynny wedi'u lleoli yng Nghymru a'r gweddill ledled y DU. Nododd chwech o'r rolau hyn y Gymraeg fel sgil 'dymunol' a phedair yn 'hanfodol'. Rydym wedi recriwtio pedwar siaradwr Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf.

Safonau Llunio Polisi

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol amrywiaeth eang o bolisiau sy'n esbonio sut rydym yn cynnal ein busnes a'n gwasanaethau. Pan fyddwn yn adolygu un o'n bolisiau neu'n datblygu polisi newydd, rydym yn ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio.

Gyda'r holl bolisiau newydd, ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn meddwl am ffyrdd y gall bolisiau gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i siarad Cymraeg.

Yn yr un modd, wrth gynnal gwaith ymgynghori neu ymchwil fel rhan o ddatblygu polisi, byddwn yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac yn ceisio barn ar hyn.

Yn unol â safon 90, ym mis Ionawr 2020 cyhoeddwyd ein [polisi](#) ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau. Mae'r polisi hwn wedi'i gynnwys mewn canllawiau a grëwyd eleni i gydweithwyr i'w gwneud yn glir beth yw ein disgwyliadau o ddeiliaid grant o ran Safonau'r Gymraeg.

Y Gymraeg yn ein rhanbarthau

Cyd-destun ac ystadegau



Gogledd Cymru
Dyma'r rhanbarth sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, mae'n parhau'n gadarnle y Gymraeg. Mae gan Gwynedd a Môn y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru ac mae gan y rhan fwyaf o gymunedau yma nifer uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan Conwy a Sir Ddinbych bocedi o gymunedau sy'n gadarn o ran y Gymraeg fel yr ardaloedd o gwmpas Corwen a Rhuthun yn Sir Ddinbych a'r ardaloedd o gwmpas Llanrwst, Betws-y-coed a Cerrigydrudion yng Nghorwy. Wrecsam a Sir y Fflint yw'r unig sroedd heb ganran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth hwn.

Dyma'r ardaloedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol yn y Gogledd:

- Gorllewin Caernarfon & Waunfawr, Gwynedd – 78.1%
- Llŷnegeri, Ynys Môn – 74.9%
- Betws yn Rhos, Llŷnegeri & Llansannan, Conwy – 55.7%
- Corwen, Llanellidan & Efenectyd, Sir Ddinbych – 44.5%

Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mae gan ranbarth y Canolbarth a'r Gorllewin broffili iethyddol cymysg iawn, gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a Sir Gâr. Mae rhan ardaloedd gyda chanranau uchel ym Mhowys set yr ardaloedd o gwmpas Machynlleth a Llanerfyl. Mae ardaloedd Cilgerran a Crmymch yn sir Benfro gyda nifer uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd. Mae canranau uchel yng Ngogledd Castell-nedd Port Talbot. Mae canranau isel yn Abertawe a Pen-y-bont ar Ogwr ond mae'n rhaid ystyried y cynnydd mewn



Dogfen 'Y Gymraeg yn ein rhanbarthau' i gydweithwyr.

Gweler isod ein datblygiadau eraill eleni mewn perthynas â'n safonau llunio polisi:

Profi deunydd gyda chwsmeriaid

Gyda'r holl raglenni ariannu newydd neu unrhyw newidiadau i'n rhaglenni ariannu yng Nghymru neu ledled y DU, rydym yn profi ein deunyddiau a'n canllawiau ymgeisio gyda chwsmeriaid yng Nghymru.

Eleni, cyn lansio Camau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd ym mis Ionawr, fe wnaethom brofi'r deunyddiau gyda chwsmeriaid yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr adborth a gawsom yn gadarnhaol, ac roedd y sefydliadau yn gwerthfawrogi ein bod wedi profi'r deunyddiau yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Fe wnaethom hefyd brofi deunyddiau ar gyfer ein rhaglen Pawb a'i Le, a lansiwyd ar ei newydd wedd ym mis Medi eleni.

Mae cydweithio â'n tîm Dylunio Gwasanaeth ar ddatblygu rhaglenni newydd, profi deunyddiau gyda chwsmeriaid a phrofi'r deunyddiau ar ein systemau mewnol yn cryfhau dealltwriaeth timau ledled y DU o'r angen i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried drwy gydol y broses.

Perthynas agos â'n Tîm Polisi

Mae pob cydweithiwr yng Nghyfarwyddiaeth Cymru yn cyfarfod bob wythnos dros Microsoft Teams i dderbyn diweddariad gan bob tîm yng Nghymru gan gynnwys y Tîm Polisi, y Tîm Cyfathrebu ac Ariannu.

Mae'r Tîm Cyfathrebu, sy'n cynnwys Swyddog y Gymraeg, ein Cyfieithydd a'n Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos. Mae aelod o'r Tîm Polisi yn ymuno â'r cyfarfodydd unwaith yr wythnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith i sicrhau y gallwn gydweithio a chefnogi ein gilydd.

Mae hyn yn golygu bod Swyddog y Gymraeg yn cael gwybod am bolisiau newydd neu newidiadau i unrhyw bolisi a allai effeithio ar y Gymraeg.

Datblygiadau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r tîm EDI (Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant) wedi creu adnodd Asesu Effaith ar Degwch eleni i'w ddefnyddio wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu raglen newydd. Mae'n cefnogi cydweithwyr i ystyried goblygiadau EDI, gan gynnwys y Gymraeg, yn ystod pob cam datblygu yn unol â dull sy'n seiliedig ar degwch a sut y gallai effeithio ar grwpiau o bobl yn gadarnhaol ac yn negyddol - a rhoi camau ar waith i liniaru hyn.

Mae'r hyfforddiant EDI 'Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ariannu' ar ein system ddysgu fewnol yn orfodol i gydweithwyr ariannu ac mae'n cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth.

Safonau Gweithredu

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad ledled y DU gyda'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru. Pan ddechreuodd y Gronfa weithredu o dan y safonau yn 2017, y Safonau Gweithredol oedd y rhai mwyaf heriol i'w cyflawni fel sefydliad.

Rydym wedi gwneud cynnydd mawr yn ystod y saith mlynedd diwethaf ac mae'r Gymraeg bellach wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y sefydliad gyda thimau ledled y DU yn meddwl am y Gymraeg cyn creu unrhyw ymgyrch, rhaglen neu ddeunyddiau newydd. Yn unol â safon 94, rydym wedi datblygu polisi ar ddefnydd mewnol y Gymraeg ac rydym wedi cyhoeddi'r polisi hwn ar ein mewnwyd.

Yr iaith Gymraeg... ein addewid i chi
The Welsh language... our promise to you

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Mae Safonau iaith yn sicrhau bod gan pobl yr hawl i ddefnyddio Cymraeg wrth gysylltu ac ymddrin â chyrrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi ein ymrwmo i gwrrdd â'r safonau ym mhob agwedd o'n gwaith.

Egwyddor

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal bob amser yn ein gwaith yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hawl unigolion i gynnal eu busnes a byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn

- cyfathrebu gyda chi yn Gymraeg ac yn Saesneg
- cyhoeddi pob peth mewn print ac ar-lein yn ddwyieithog yng Nghymru
- sicrhau na fydd oedi wrth ymddrin â cheisiadau Cymraeg am grantiau
- parchu a chofo eich dewis iaith
- hyrwyddo cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni

Gallwch chi

- gysylltu a chyfathrebu gyda ni yn Gymraeg ac yn Saesneg
- gwneud cais am arian trwy gyfrwng y Gymraeg
- siarad wyneb yn wyneb gyda ni yn Gymraeg neu Saesneg
- cwyno wrthyf yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw pethau yn mynd o chwth

The Welsh Language Standards make sure that individuals have the right to use their Welsh when they get in touch with public bodies in Wales.

The National Lottery Community Fund is committed to achieving those standards in all aspects of our work.

Principle

We will always treat the Welsh and English language equally in our work in Wales. We recognise individuals' right to live their life and conduct their business through the medium of Welsh.

We will

- communicate with you in Welsh and English
- publish all our materials in print and online bilingually in Wales
- make sure that there's no delay when we consider grant applications made in Welsh
- respect and remember your choice of language
- promote opportunities to use Welsh with us

You can

- contact us in Welsh and English
- make a grant application in Welsh
- talk to us face to face in Welsh or English
- complain to us in Welsh or English if things do

Polisi mewnol 'Yr iaith Gymraeg... Ein haddewid i chi' ar ein mewnwyd.

Rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle wrth ddechrau eu swydd yn y Gronfa. Yn unol â'r polisi hwn a safon 95, cynigir eu contract swydd yn Gymraeg a gellir darparu unrhyw ohebiaeth, dogfennau a ffurflenni wedi hynny yn Gymraeg (safonau 96-100). Mae'r holl bolisiâu mewnol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, gan gydymffurfio â safonau 101-107, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm Adnoddau Dynol sy'n cyfathrebu unrhyw bolisiâu neu ddiweddariadau newydd i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfieithu'n brydlon i'r Gymraeg cyn eu bod ar gael i gydweithwyr.

Dyma fanylion ein llwyddiannau ynghylch ein Safonau Gweithredol eleni:

Hwb Pobl

Mae gennym system fewnol yn y Gronfa lle gall cydweithwyr gofnodi eu hamcanion perfformiad, gweld eu manylion cyflogaeth ynghyd â chofnodi gwyliau blynyddol ac unrhyw absenoldeb arall o'r gwaith i gyd ar un system. Enw'r system hon yw Hwb Pobl. Mae Hwb Pobl ar gael yn ei gyfanrwydd yn yr iaith Gymraeg ac mae'n cael ei ddefnyddio'n eang ymhlith ein cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â safonau 98 a 100.

Asesu sgiliau Cymraeg cydweithwyr

Yn unol â safon 123, rydym yn anfon holiadur at gydweithwyr yn flynyddol i asesu faint o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y sefydliad ac ar ba lefel. Mae'r cwestiynau'n gofyn pa mor hyderus y maen nhw'n siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Rydym hefyd yn gofyn am adborth ar unrhyw adnoddau yr hoffai cydweithwyr i ni eu darparu i'w cefnogi i ddysgu'r Gymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Anfonwyd yr holiadur ym mis Awst eleni ac fe'i cwblhawyd gan 33 o gydweithwyr (25 yng Nghyfarwyddiaeth Cymru ac 8 sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ond yn gweithio y tu allan i gyfarwyddiaeth Cymru). Cwblhaodd 15 o gydweithwyr yr holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg, a cwblhaodd 18 o gydweithwyr yr holiadur yn Saesneg.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod nifer o'n cydweithwyr yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau gwrando a darllen Cymraeg gyda 13 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddeall y mwyafrif o destunau Cymraeg cymhleth a syml" a 12 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau". Mae nifer y cydweithwyr sy'n teimlo'n hyderus yn siarad ac ysgrifennu yn is, gyda 10 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n ddigon hyderus i gynhyrchu adroddiad / adroddiad asesu / dogfen ymateb i ymgynghoriad yn Gymraeg" a 10 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n mynegi fy hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth".

Yn yr holiadur, cafodd cydweithwyr y cyfle i roi adborth ar ba adnoddau neu wasanaethau yr hoffent eu derbyn i ddefnyddio eu Cymraeg yn fwy yn y gweithle. Cawsom lawer o sylwadau cadarnhaol am y sesiynau sgwrsio anffurfiol wythnosol rhwng ein dysgwyr a'n cyfieithydd. Maen nhw'n awyddus i'r rhain barhau. Hoffai'r rhai sy'n mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg barhau i fyny.

Nododd un cydweithwr y byddent yn hoffi cael cymorth i wella eu sgiliau gramadeg Cymraeg. Hoffai dau gydweithwr gael mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol. Soniodd cydweithwr arall y byddent yn hoffi cael mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn anffurfiol, fel ein clwb llyfrau mewnol. Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried a'u gweithredu dros y flwyddyn nesaf.

Dysgwyr Cymraeg yn y Gronfa

Yn unol â safonau 125-127, rydym yn annog cydweithwyr i ddysgu neu wella eu Cymraeg yn y Gronfa gyda nifer o wahanol gyfleoedd sy'n addas i ddysgwyr, boed hynny ar gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, cwrs ar-lein neu gwrs hunandysgedig. Rydym yn gweithio'n agos gyda [Dysgu Cymraeg](#) ac rydym yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i gydweithwyr i ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau iaith yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar gyfer dechreuwr newydd.

Ar hyn o bryd mae un ar ddeg o gydweithwyr y Gronfa yn dysgu Cymraeg, saith y tu allan i gyfarwyddiaeth Cymru - y nifer uchaf o ddysgwyr yn ein sefydliad y tu allan i Gymru erioed. Rydym wedi parhau â'r momentwm o helpu ein cydweithwyr i ddysgu Cymraeg gyda sgwrsiau anffurfiol wythnosol ein cyfieithydd â'n dysgwyr. Rydym yn defnyddio adnoddau Dysgu Cymraeg i gynnal y sgwrsiau ac mae dau o'n dysgwyr wedi mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg ffurfiol eleni.

Rhennir adnoddau gyda grŵp y dysgwyr megis erthyglau newyddion gyda geirfa ar gyfer dysgwyr, podlediadau, rhaglenni teledu gydag is-deitlau a manylion grwpiau a digwyddiadau sgwrsio Cymraeg lleol ledled y DU.

Hyfforddiant Mewnol

Mae'n ofynnol i bob cydweithiwr gwblhau'r dystysgrif hyfforddi 'Hanfodion y Gweithle' pan fyddant yn ymuno â'r Gronfa, ac yna ei chwblhau eto yn flynyddol. Mae naw cwrs i'w cwblhau ar ein system dysgu mewnol ac maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys: Cod Moeseg; Diogelu Data (GDPR, Rhyddid Gwybodaeth): Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrîn Arddangos a Diogelwch Tân); Diogelu; Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; Ymwybyddiaeth o wrth-dwyll a llygredd; Ein Fframwaith Statudol a Rheoleiddio; a Diogelwch TG.

Ym mis Rhagfyr 2023, ychwanegwyd modiwl 'Hyderus o ran data' newydd at y cwrs Diogelu Data, ynghyd â rhai diwygiadau i'n modiwl GDPR. Mae'r modiwlau hyn hefyd ar gael yn y Gymraeg.

Felly, rydym yn cwrdd â safon 124 wrth ddarparu'r holl hyfforddiant hanfodol yn Gymraeg a Saesneg. Fe wnaeth dau gydweithiwr gwblhau'r dystysgrif 'Hanfodion y Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg eleni.

Ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymreig a phwysigrwydd y safonau

Yn unol â safon 128, mae ein modiwl ymwybyddiaeth iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant 'Hanfodion y Gweithle' ac mae'n ofynnol iddo gael ei gwblhau gan bawb yn y sefydliad ledled y DU. Mae'r modiwl yn ymdrin â hanes yr iaith, ei sefyllfa heddiw ac felly ei phwysigrwydd i ni fel sefydliad dwyieithog ledled y DU.

Yn unol â safon 129, mae pob cydweithiwr newydd yn y Gronfa yng Nghyfarwyddiaeth Cymru yn cael sesiwn ymsefydlu gyda Swyddog y Gymraeg. Yn y sesiwn hon, rydym yn trafod ein dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ym mis Mai, cyflwynodd Swyddog y Gymraeg a'n Cyfieithydd ddwy sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth Gymraeg i'r tîm Cyfathrebu Strategol a thîm Portffolio'r DU, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyd-destun hanesyddol i'r Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth am ddeddfwriaeth a sefyllfa'r iaith heddiw. Buom yn trafod sut i ddylunio cynnwys dwyieithog, cyfieithu, sut rydym yn hyrwyddo ein gwasanaeth dwyieithog a'n disgwyliadau o ddeiliaid grant i reoli eu prosiectau'n ddwyieithog.

Er mwyn pwysleisio ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhellach i'n cydweithwyr newydd, eleni rydym yn bwriadu gweithio gyda'n tîm Dysgu a Datblygu i ailgyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth Gymraeg i'n sesiwn Ymsefydlu Corfforaethol sy'n orfodol i bob cydweithiwr newydd ledled y DU. Mae hyn yn rhywbeth yr oeddem yn arfer ei wneud cyn y pandemig, felly byddwn yn adeiladu ar ein sesiynau blaenorol i ddiweddarau'r deunyddiau a'u teilwra ar gyfer sesiwn rithiol.



The Welsh Language

UK Portfolio session – June 2024

Awel Jones & Megan Martin



Cyflwyniad i dîm Portffolio'r DU am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

I hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith, rydym yn dathlu dyddiau a digwyddiadau Cymraeg yn fewnol yn y Gronfa, yn ogystal â chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu allanol ar y cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr:

Diwrnod Shwmae/Sumae (15 Hydref)

Ym mis Hydref 2023, aethom i ddigwyddiad Diwrnod Shwmae/Sumae a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym Mharc Cyfarthfa. Roedd y diwrnod dathlu yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau diwylliannol a gynhaliwyd gan y cyngor, a ariannwyd gan grant £10,000 gan y Loteri Genedlaethol. Fe wnaethon ni dynnu sylw at ein presenoldeb ar ein [blog](#) a chael cyfle i gwrdd ag Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, a ddiolchodd i'r Gronfa am gefnogi'r digwyddiad.



Swyddog y Gymraeg, Awel Jones gydag Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg yn y digwyddiad dathlu Shwmae/Su'mae ym Mharc Cyfarthfa, Merthyr Tudful.

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg (27 Tachwedd - 11 Rhagfyr)

Ym mis Rhagfyr 2023, gwnaethom gymryd rhan yn Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg drwy greu [fideo](#) i'w rannu ar ein cyfryngau cymdeithasol gan dynnu sylw at y cyfleoedd sydd gan gydweithwyr ar draws y Gronfa i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg yn y gweithle. Gwnaethom hefyd greu [fideo](#) yn cynnwys dau o'n Swyddogion Ariannu yn trafod sut y maent yn cefnogi grwpiau cymunedol i wneud cais am ein grantiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r fideo hefyd yn cynnwys un o'n deiliaid grant, Nerth dy Ben, yn rhannu eu profiad o wneud cais am grant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dydd Miwsig Cymru (9 Chwefror)

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, fe wnaethom ysgrifennu [blog](#) yn tynnu sylw at ddeiliaid grant yng Nghymru sy'n defnyddio cerddoriaeth er budd eu cymunedau, gan gynnwys Cwmni Theatr Maldwyn, Menter Cwm Gwendraeth Elli a Sistema Cymru – Codi'r To. Rhannwyd y blog ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr.



The poster for the Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi (St. David's Day Eisteddfod) is divided into two main columns. The top left features the logo for 'CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND' with a hand icon. The top right has a date box for '04 03 2024'. The main title is 'Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi'. Below this, there are two columns of topics: 'Rhestr Testunau' (List of Topics) and 'List of Topics'. The 'Rhestr Testunau' column lists 'Coginio' (Cooking), 'Celf/ Art' (Art), 'Cerdd' (Poem), and 'Limerig' (Limerick). The 'List of Topics' column lists 'Cooking', 'Art', 'Poem', and 'Limerig/ Limerick'. At the bottom, there is a section for 'I'w gyflwyno yn yr Eisteddfod:' (To be presented at the Eisteddfod:). The bottom of the poster has a green background with text in Welsh and English.

Rhestr Testunau
Coginio
Cyflwyno Resiat Gymreig gyda delwedd o'r bwyd
Celf/ Art
Delwedd sy'n cynrychioli ein hamgylchedd a byd natur
Cerdd
Cerdd ar y thema cymuned - Gall fod yn Gymuned o ddiddordeb neu gymuned ddaearyddol
Limerig
Rhaid cynnwys 'fe brynais Tocyn Loteri'
I'w gyflwyno yn yr Eisteddfod:
• Anifail anwes neu aelod teulu gyda talent arbennig
• Cyflwyniad o'ch hoff lyfr Cymraeg
• Cyflwyniad o'ch hoff canwr/ cantores/ band Cymraeg

List of Topics
Cooking
Presentation of a Welsh recipe with an image of the food
Art
An image that represents our environment and nature
Poem
Poem about community - Can be a community of interest or geographical community
Limerig/ Limerick
Must include 'I bought a Lottery ticket'
To be presented at the Eisteddfod:
• Pet or a family member with a special talent
• Presentation of your favourite Welsh book
• Presentation of your favourite Welsh singer/ band

Dylai cflwyniadau a bwriadau i gystadlu yn yr Eisteddfod fod wedi cael ei gyflwyno i sylw Awel Jones erbyn 12:30 am fan bellaf ar 1 Mawrth 2024.
Submissions and intentions to compete in the Eisteddfod should be brought to the attention of Awel Jones no later than 12:30am on the 1 March 2024.

Dydd Gŵyl Dewi (1 Mawrth)

Buom yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn fewnol yn y Gronfa yn yr Eisteddfod flynyddol i hyrwyddo'r Gymraeg a'n diwylliant gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad. Gwnaethom hefyd rannu'r digwyddiad yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Rhestr o gystadlaethau ar gyfer ein Eisteddfod fewnol flynyddol ym mis Mawrth.

Safonau Cadw Cofnodion

Er mwyn cydymffurfio â'n Safonau Cadw Cofnodion (safonau 141-148), rydym yn cadw cofnodion o'r canlynol:

- Cwynion a dderbyniwn mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Rydym yn falch o nodi nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am y Gymraeg eleni.
- Sgiliau iaith cydweithwyr yn dilyn holiadur sgiliau Cymraeg ac unrhyw adborth ynghylch adnoddau dysgu Cymraeg i'w darparu.
- Nifer y cydweithwyr sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg.
- Aseidiadau a wnawn mewn perthynas â sgiliau iaith Gymraeg a allai fod yn ofynnol ar gyfer swydd newydd neu wag a faint o rolau a hysbysebiri sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'.
- Nifer y deiliaid grant sydd wedi mynychu ein sesiynau 'Dwyieithrwydd ar waith' ar y cyd â thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg.

Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau

Gan mai prif bwrpas Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw darparu grantiau i'n cymunedau, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein deiliaid grant yn rheoli eu prosiectau'n ddwyieithog i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

Yn unol â safon 90, dyma rai pethau ychwanegol yr ydym wedi'u gwneud eleni i sicrhau bod ein deiliaid grant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal ac yn ystyried pa effaith y mae eu grant yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg:

Canllaw cynllunio prosiect dwyieithog

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi [Canllaw Cynllunio Prosiect Dwyieithog](#) ar gyfer deiliaid grant. Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar ein canllawiau [Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog](#) ac yn annog deiliaid grant i ystyried gofynion iaith y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a llunio cynllun prosiect sy'n amlinellu sut y bydd eu prosiectau'n ddwyieithog. Mae'n cynnwys awgrymiadau defnyddiol sy'n ymdrin â chostau cyfieithu, cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, recriwtio a chynllunio digwyddiadau. Bwriad y canllawiau hyn yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried drwy gydol y broses ymgeisio, yn ogystal â darpariaeth y prosiect.

Sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith

Mewn cydweithrediad â staff Comisiynydd y Gymraeg, rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant i'n deiliaid grant ar sut i reoli eu prosiectau'n ddwyieithog. Cynhaliwyd y sesiynau ym mis Ionawr a mis Mehefin 2024. Yn y sesiynau rydym yn egluro beth yw ein gofynion grant o ran y Gymraeg. Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn darparu cyngor ar ddylunio dwyieithog ar gyfer posteri a'r cyfryngau cymdeithasol a'r adnoddau sydd ar gael i helpu gyda chyfieithu a phrawfddarllen. Mae'r sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith nesaf wedi'u cynllunio ar gyfer mis Tachwedd 2024.

Gwyliau Cymreig

Rydym wedi parhau i gefnogi gwyliau Cymreig sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant drwy ein grantiau a'n gwaith allgymorth:

Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn (27 Mai - 1 Mehefin)

Aethom i Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn i ymgysylltu â rhanddeiliaid a mynychu digwyddiad lansio Mudiad Meithrin ar gyfer eu sianel YouTube Gymraeg newydd i blant a theuluoedd, a ariennir gan grant Pawb a'i Le. Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i recordio fideo gyda'n deiliad grant Bro360 a Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin, ar gyfer ein cyfarfod mewnol ledled y DU a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf. Rhoddodd hyn gyfle i gydweithwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gael cipolwg ar ddiwylliant Cymru a pham fod ein darpariaeth Gymraeg mor bwysig fel ariannwr.

Yr Eisteddfod Genedlaethol, Rhondda Cynon Taf (3-10 Awst)

Roedd stondin gennym yn Hwb y Trydydd Sector yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni a oedd yn gyfle da i rwydweithio gydag elusennau a sefydliadau yng Nghymru a darparu cymorth ariannol i ymwelwyr yr Eisteddfod drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaethom hefyd gwrdd â'r Prif Weinidog newydd, Eluned Morgan, yn yr hwb a thrafod ein cynnig ariannu yng Nghymru. Yn ystod yr wythnos fe wnaethom hefyd rannu [fideo](#) a grëwyd gennym am brosiect Ymbweru Bro Bro360. Yn y fideo rydym yn trafod pwysigrwydd gallu gwneud cais am ein grantiau a chysylltu â'n swyddogion ariannu drwy gyfrwng y Gymraeg.



Gareth Scourfield a Marged Roberts, Swyddogion Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cwrdd â'r Prif Weinidog Eluned Morgan yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.



Ruth Bates, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yng Nghymru yn mynychu Sioe Frenhinol Cymru.

Sioe Frenhinol Cymru (22-25 Gorffennaf)

Aethom i Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt eleni i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol. Gwnaethom hefyd rannu neges ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ein buddsoddiad o £11.5 miliwn mewn cymunedau gwledig yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf.

Prosiectau nodedig Cymraeg a ariannwyd eleni

Rydym yn cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gweler isod rai enghreifftiau o brosiectau Cymraeg yr ydym wedi eu cefnogi eleni:

Derbyniodd **Caban Pentra** yng Ngwynedd grant £126,405 i ddiweddarau gofod segur yn Neiniolen ar gyfer y gymuned. Bydd yr hwb newydd yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu, dysgu a datblygu sgiliau newydd. Ei nod yw lleihau unigrwydd ac ynysrwydd ymhlith pobl o bob oedran mewn ardal wledig Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnig dosbarthiadau hyfforddiant i integreiddio teuluoedd di-Gymraeg i'r gymuned.

Derbyniodd **Canfod y Gân** yng Ngwynedd grant £20,000 i gynnal sesiynau cerddoriaeth bob pythefnos i wella iechyd meddwl pobl ag anableddau dysgu 16+ oed. Bydd y prosiect yn defnyddio cerddoriaeth Gymraeg i ddatblygu cysylltiadau rhwng pobl ag anableddau a heb anableddau drwy gryfhau eu hymdeimlad o berthyn mewn ardal Gymraeg yn bennaf.

Derbyniodd **Mudiad Meithrin** grant £496,945 i ddatblygu sianel YouTube addysgol newydd i deuluoedd, gan adeiladu ar boblogrwydd eu cymeriadau unigryw, Dewin a Doti. Bydd y platfform digidol yn cyflwyno amrywiaeth o fideos a straeon i annog teuluoedd ledled Cymru i ddefnyddio'r iaith gartref.

Derbyniodd **Menter Iaith Bro Morgannwg** grant £8,350 i ddatblygu ei gŵyl Gymraeg flynyddol, Gŵyl Fach y Fro, a gynhaliwyd ym mis Mai 2024. Ariannodd y grant gyfres o weithdai cymunedol yn arwain at yr ŵyl yn Ynys y Barri, ac yna perfformiadau yn ystod yr ŵyl a chyfleoedd i gyfranogwyr ar ôl yr ŵyl gan gynnwys dechrau clwb dawn.

Safonau Atodol

Y llynedd, argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg ein bod yn diweddarau ein [gweithdrefn gwyno](#) i gynnwys manylion hyfforddiant staff i ddelio ag unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Ers hynny, mae'r ddogfen wedi cael ei diweddarau, gan gydymffurfio â safonau 150, 156 a 162.

Awgrymwyd hefyd i ddiweddarau ein dogfen [Goruchwylio, Hybu a Hwyluso Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg](#). Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Lluo Polisi a Gweithredu ac mae bellach yn cydymffurfio'n llawn â safonau 151, 157 a 163.

Casgliad ac argymhellion

Roedd yr adroddiad hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn 2023-2024. Yn yr adroddiad, gwnaethom edrych ar safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion. Edrychom hefyd ar sut rydym wedi hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg drwy ein grantiau gyda digwyddiadau amrywiol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Gronfa wedi parhau i ddatblygu'r Gymraeg a'n gwasanaethau dwyieithog, ac rydym wedi gwneud newidiadau cadarnhaol. Rydym yn falch o'r ddarpariaeth Gymraeg a gynigir gennym yn fewnol ac yn allanol.

Dros y flwyddyn nesaf, awgrymir ein bod yn blaenoriaethu'r canlynol:

- **Dathliadau pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed** – Ym mis Tachwedd eleni, byddwn yn dathlu carreg filltir bwysig yn hanes y Loteri Genedlaethol, ei phen-blwydd yn 30 oed. Mae'r Gymraeg wedi cael ei hystyried o ddechrau'r broses gynllunio a byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau a deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r dathliad yn ddwyieithog.
- **Adnewyddu rhaglen ariannu Pawb a'i Le** – Ym mis Medi, byddwn yn adnewyddu ein rhaglen Pawb a'i Le. Mae'r Gymraeg wedi cael ei hystyried drwy gydol y broses hon a byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau a deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r diweddariad yn ddwyieithog.
- **Cyfieithu unrhyw bolisiau diweddaredig i'r Gymraeg** – Mae polisiau mewnol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gan ein tîm Adnoddau Dynol. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn parhau i gael eu cyfieithu i'r Gymraeg cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n fewnol a'u rhoi ar ein mewnrwyd er mwyn cydymffurfio â safonau 101 – 107.
- **Parhau i annog cydweithwyr i ddysgu Cymraeg** – Byddwn yn parhau i gynnal y berthynas gyda Dysgu Cymraeg a rhannu'r cyrsiau sydd ar gael yn gyson gyda chydweithwyr. Bydd y dull hwn yn helpu cynnal y momentwm rydym wedi'i greu o amgylch datblygu sgiliau Cymraeg ein cydweithwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal y sgysiau Cymraeg anffurfiol rhwng ein cyfieithydd mewnol a'n dysgwyr.
- **Annog mwy o gydweithwyr Cymraeg i gwblhau eu hyfforddiant mewnol 'Hanfodion y Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg** – Byddwn yn paratoi cyfathrebiadau i bwysleisio i gydweithwyr bod yr holl fodiwlau hyfforddiant mewnol ar gael yn y Gymraeg a'u bod yn cael eu hannog i'w cwblhau yn Gymraeg os ydynt yn gallu.
- **Parhau i ddiweddarau timau ar draws y DU ar y Safonau** – Bydd Swyddog y Gymraeg yn trefnu mwy o sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda thimau ledled y DU i'w diweddarau am ein Safonau, yn ogystal â diweddarau ein rhanbarthau yng Nghymru yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn cydweithio â thîm Dysgu a Datblygu'r Gronfa i gynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein sesiwn Ymsefydlu Corfforaethol ar gyfer pob cydweithiwr newydd ledled y DU.
- **Parhau i ddarparu cefnogaeth i'n prosiectau** – Ar ôl cael adborth cadarnhaol yn dilyn ein sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith eleni, rydym yn bwriadu parhau â'r hyfforddiant hwn ar gyfer deiliaid grant dair gwaith y flwyddyn mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.

- **Parhau i hyrwyddo diwylliant Cymru** – Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r Gronfa yn hyrwyddo diwylliant Cymru drwy ddyddiau a gwyliau Cymreig. Rydym yn bwriadu parhau i ddathlu'r dyddiau hyn yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, mae'n bwysig i ni barhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau a hyrwyddo prosiectau Cymraeg drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo diwylliant Cymreig yn fewnol drwy barhau â'n clwb llyfrau Cymraeg a'r Eisteddfod fewnol, er enghraifft.

Atebolrwydd

Os hoffech gysylltu â ni am Safonau'r Gymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost at cymorth.cymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk.